# Llwybr Watkin, Yr Wyddfa

**ANODD/LLAFURUS**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 13km (8 milltir)
- Hyd: 6 awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl


### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.


eryri.llyw.cymru




V-20220323/2137





I gyrraedd dechrau'r llwybr dilynwch y ffordd fawr i'r chwith o'r maes parcio, dros y bont ac yna croeswch y ffordd. Ar y chwith i fynedfa fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Hafod y Llan, fe welwch arwydd 'Llwybr Watkin Path', a grisiau cerrig yn arwain i'r goedwig. Ewch trwy'r giât a dilynwch y llwybr trwy'r goedwig ac ymhen ychydig byddwch yn mynd trwy ddwy giât fetel fawr.




Ar hyn, fe ddewch allan i gefn gwlad agored, a phan ddewch at dro yn y llwybr fe welwch Gwm Llan yn ymestyn o'ch blaen.





Wedi i chi fynd trwy'r giât fynydd pren, byddwch yn pasio rhaeadrau hardd yn tasgu ar y dde.




Ar ôl pasio'r felin falu bydd y llwybr yn fforchio. Cadwch i'r dde – mae'r llwybr i'r chwith yn arwain dros Fwlch Cwm Llan ac am yr Aran.





Yn y man, byddwch yn mynd heibio Craig Gladstone a'i blac carreg yn cofnodi agor y llwybr i'r copa.




Ar ôl pasio'r baracs, mae'r llwybr yn gwyro'n serth i'r dde a gwelir Cwm Tregalan ar y chwith. Dilynwch y llwybr sy'n dringo'n serth iawn i Fwlch Ciliau.





Ym Mwlch Ciliau, dilynwch y llwybr i'r chwith.




Cyn y darn serth nesaf mae Bwlch y Saethau.

9



Ar ôl mynd heibio Bwlch y Saethau fe ddewch at ran anoddaf y llwybr sydd wedi'i farcio â maen hir. Mae'n hynod o serth, ac mae angen cymryd gofal gan ei bod yn rhydd iawn dan draed. Ar ben y bryn fe ddewch at faen hir arall sy'n nodi'r man lle mae Llwybr Watkin yn ymuno â Llwybr Rhyd Ddu. (Cofiwch droi oddi ar Lwybr Rhyd Ddu wrth y garreg hon ar y ffordd i lawr o'r copa.)

10



O'r faen hir ar ben uchaf Bwlch Main, sy'n nodi'r gyffordd â Llwybr Rhyd Ddu, dilynwch y llwybr i'r dde ac fe ddaw y ganolfan ymwelwyr, Hafod Eryri i'r golwg. Rydych yn awr ar y rhan olaf o'ch taith i fyny'r Wyddfa, ac ond ychydig funudau o'r copa.

11



Ar y ffordd i lawr, mae'n bwysig cofio nad yw Llwybr Watkin yn cychwyn yn syth o'r copa – mae'n cychwyn o'r  maen hir sydd tua 200 metr i lawr Llwybr Rhyd Ddu.